COFNOD O GYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR 2024 AM 14:30

Yn bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | J Gebbie | H M Williams | E L P Caparros |
| P Davies | M J Evans | M Jones | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Mark Shephard | Y Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |
| Helen Pembridge | Prif Swyddog Tai/Llygredd, Bro Morgannwg |

Datganiadau o Fuddiant

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol:

- Datganodd y Cynghorydd N Farr ddiddordeb personol yn eitem 5 am fod yr adroddiad yn crybwyll teithio llesol ar ffordd Newton Nottage, rhywbeth y mae hi wedi bod yn ymgyrchu drosto ers cael ei hethol.
- Datganodd Y Cynghorydd M Evans ddiddordeb personol yn eitem 4 fel llywodraethwr Ysgol Gyfun Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed.
- Datganodd y Cynghorydd M Evans fuddiant anffafriol yn eitem 5, gan fod yr adroddiad yn crybwyll pont Penprysg. Gadawodd y Cynghorydd Evans y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
- Datganodd y Cynghorydd J Spanswick ddiddordeb personol yn eitem 5, gan fod yr adroddiad yn crybwyll Cyffordd Singleton ym Mracla.
- Datganodd y Cynghorydd E Caparros ddiddordeb personol yn eitem 5, gan fod yr adroddiad yn crybwyll Cyffordd Singleton ym Mracla, sydd o fewn ei ward.

**408. Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2023/24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2023-24. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

**409. Trefniadau Derbyn i Ysgol wedi'u Cydlynu 2027-2028**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Trefniadau Derbyn i Ysgol wedi'u Cydlynu 2027-2028 (fel y crynhowyd yn Atodiad A yr adroddiad). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

**410. Prosiectau Trafnidiaeth Strategol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Yn ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Teithio Llesol a Metrolink Porthcawl.<br><br>2. Cymeradwyo'r rhestr o brosiectau teithio llesol sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 3.3.7 - 3.3.9 i fynd yn eu blaenau fel cynlluniau ar gyfer Prosiectau Cyfalaf, Cynlluniau Datblygu Craidd a Chynllun Gwaith Mân fel cynigion yn rhaglen gyllido Llywodraeth Cymru 2025/26.<br><br>3. Gohirio gwaith pellach ar gynllun Teithio Llesol Merlin Crescent hyd nes bydd gwaith datblygu ac ymgynghori pellach.<br><br>4. Cymeradwyo'r prosiectau teithio llesol a thrafnidiaeth strategol arfaethedig fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, i'w cynnwys fel rhan o unrhyw geisiadau yn y dyfodol i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd neu gyfleoedd ariannu eraill yn ogystal â'u cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.<br><br>5. Cymeradwyo'r prosiectau a nodwyd yn yr adroddiad i fod yn sail i drafodaeth gyda chyrff trafnidiaeth allanol eraill ar flaenoriaethau trafnidiaeth strategol cenedlaethol a rhanbarthol.<br><br>6. Cymeradwyo mewn egwyddor y gwaith sydd ei angen i ganiatáu i Lwybr Cymunedol Cwm Garw ddychwelyd i ddefnydd gweithredol yn y tymor byr yn amodol ar gyllid ac mewn egwyddor i gymryd y brydles a rheolaeth weithredol ar y llwybr yn y tymor hwy yn amodol ar ymchwiliad safle helaeth, bod costau'n cael eu paratoi, cyllidebau'n cael eu nodi a'u hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w cymeradwyo'n ffurfiol.<br><br>7. Nodwyd y bydd angen cyflwyno unrhyw gynlluniau cyfalaf yn y dyfodol i'r Cyngor i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

**411. Polisi Gweithio Hyblyg**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Gweithio Hyblyg. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

### 412. Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cydnabu'r Cabinet gyhoeddi'r adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.1 yr adroddiad eglurhaol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

### 413. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

### 414. Eithrio'r Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nid yw'r eitem ganlynol i gael ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fe'i y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad)(Cymru) 2007.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, os bydd y Cabinet yn penderfynu, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r |

| | |
|---|---|
| | cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |

## 415. Pryniant Gorfodol Eiddo Gwag Tymor Hir Problemus

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid yw’r penderfyniad sy’n ymwneud â’r eitem hon ar gael i’r cyhoedd gan fod yr adroddiad wedi’i eithrio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Rhagfyr 2024 |